# Cronfa Gymunedol Watkin Jones

## Pecyn Ymgeisio

## Nodiadau ar gyfer ymgeiswyr

### Beth ydi Cronfa Gymunedol Watkin Jones?

Mae Cronfa Gymunedol Watkin Jones, cynllun sy'n cael ei redeg gan gwmni adeiladu a datblygu Grŵp Watkin Jones, yn cynnig grantiau o hyd at £1,000* er mwyn cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo cymunedau yng Ngogledd Cymru, gyda phwyslais arbennig ar wella'r amgylchedd ffisegol a gwella ansawdd bywyd ar gyfer pobl leol.

* Noder y gall y panel, o dan amgylchiadau neilltuol, benderfynu dyfarnu grantiau o fwy na £1000.

### Pwy all wneud cais?

Unrhyw grŵp neu sefydliad ddim-er-elw sy'n cynnal prosiectau yn ardaloedd awdurdod lleol Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam. Ni ellir dyfarnu grantiau i unigolion na chwmniau sy'n dosbarthu elw.

### Pa fath o brosiectau sy'n gymwys i dderbyn cymorth?

Mae Cronfa Gymunedol Watkin Jones yn cefnogi prosiectau cymunedol sy'n anelu at wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl yng Ngogledd Cymru. Gall hyn gynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag adfywio, yr amgylchedd a chynaliadwyedd, gweithgareddau addysg, adeiladu capasiti neu ddatblygu sgiliau, gwaith atgyweirio, gweithgareddau celfyddydol neu ddiwylliannol a chwaraeon

### Sut i wneud Cais

Mae ffurflenni cais ar gael i'w lawrlwytho o **www.cronfagymunedolwatkinjones.com** neu trwy ffonio 01745 538200. Dylid anfon pob cais at:

**Leah Watkins, Cronfa Gymunedol Watkin Jones, Grŵp Watkin Jones,**
**Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4YH**
Bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried bob 6 mis. Nodir y dyddiadau ar gyfer 2010 isod:

**Dydd Mawrth, 20 Gorffennaf**
**Dydd Mawrth, 7 Rhagfyr**

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn cadarnhau hynny trwy lythyr. Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu gan banel a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr Grŵp Watkin Jones a chynrychiolydd annibynnol. Pan fyddwn yn ystyried eich cais, mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi am fwy o wybodaeth am eich grŵp neu eich gweithgareddau.

Byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 6 wythnos i'r dyddiad cau er mwyn rhoi gwybod i chi a ydych wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn rhoi gwybod i chi faint o arian a ddyfarnwyd i chi ac yn cysylltu â chi i drefnu cyflwyno'r siec.

Byddwn yn cysylltu â chi o fewn 12 mis er mwyn monitro cynnydd y prosiect. Bydd gofyn i chi gwblhau ffurflen diwedd grant er mwyn rhoi gwybodaeth i ni am y gweithgareddau a ariannwyd gan y grant a'r effaith a gafwyd ar y gymuned leol.

# Cronfa Gymunedol Watkin Jones

## Pecyn Ymgeisio

### Ffurflen gais

| | |
|---|---|
| Enw'r Grŵp/Sefydliad: | |
| Enw Cyswllt: | Swydd: |
| Cyfeiriad: | |
| Ffôn: | Ebost: |

Disgrifiad byr o'r prosiect (uchafswm 200 gair)

Lleoliad y prosiect

Pryd fydd y prosiect yn cael ei gynnal?

# Cronfa Gymunedol Watkin Jones

## Pecyn Ymgeisio

| Pwy fydd yn cael budd o'r prosiect a sut? | |
|---|---|
| Cyfanswm cost y prosiect (heb gynnwys taw) | £ |
| Swm y gwneir cais amdano | £ |
| Sut bydd y grant yn cael ei ddefnyddio? | |

### Datganiad

Gallwn gadarnhau bod yr wybodaeth a nodir yn y cais hwn yn gywir. Rydym yn deall y bydd unrhyw gynnig o grant gan Gronfa Gymunedol Watkin Jones yn amodol ar y telerau ac amodau a restrir isod.

| Arwyddwyd: | Dyddiad: |
|---|---|
| | Enw: |
| | Swydd: |

### Dychwelwch eich ffurflen at:

Leah Watkins
Cronfa Gymunedol Watkin Jones
Grŵp Watkin Jones
Stad Ddiwydiannol Llandygai
Bangor
Gwynedd
LL57 4YH

# Cronfa Gymunedol Watkin Jones

## Pecyn Ymgeisio

### Telerau ac Amodau

- Ni ellir defnyddio unrhyw grant a gaiff ei ddyfarnu o dan Gronfa Gymunedol Watkin Jones ar gyfer unrhyw ddibenion ac eithrio'r rheiny a amlinellwyd ar y ffurflen gais. Gellir newid y dibenion hynny, fodd bynnag, yn ddibynnol ar gydsyniad Grŵp Watkin Jones.

- Gellid tynnu'r arian yn ôl ar unrhyw adeg os bydd y grant yn cael ei ddefnyddio mewn modd amhriodol, neu os bydd unrhyw beth yn digwydd mewn perthynas â'r prosiect neu eich sefydliad a fydd yn debygol o gael effaith andwyol ar enw da'r Gronfa neu Grŵp Watkin Jones.

- Rhaid i bob grant gael ei wario o fewn 12 mis i'r llythyr hysbysu a gellid tynnu'r arian yn ôl mewn achosion lle na lwyddir i gyflwyno tystiolaeth o'r gwariant.

- Wrth dderbyn grant byddwch yn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd yn ymwneud â Chronfa Gymunedol Watkin Jones, ac yn cydnabod y grant yn gyhoeddus fel y bo'n addas ac yn ymarferol.

- Byddwch hefyd yn cytuno i gwblhau ffurflen diwedd grant ac i roi unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani yn ystod cyfnod y prosiect mewn perthynas â monitro a gwerthuso'r grant a ddyfarnwyd o dan Gronfa Gymunedol Watkin Jones.

- Bydd y telerau a'r amodau hyn yn cael eu torri mewn achosion lle cyflwynir gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir, neu lle caiff gwybodaeth berthnasol ei chelu.

- Wrth dderbyn grant gan Gronfa Gymunedol Watkin Jones byddwch yn cytuno i ymddwyn yn unol ag unrhyw oblygiadau statudol a fo'n berthnasol i'ch sefydliad.

- Byddwch yn sichrau bod gennych bolisi cyfle cyfartal ac os bydd eich prosiect yn ymwneud â gwaith gyda phlant, pobl ifanc neu grwpiau bregus eraill, bydd gennych hefyd bolisi amddiffyn er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau arfer da trwy gydol cyfnod y grant.

Am ragor o wybodaeth am Gronfa Gymunedol Watkin Jones, ffoniwch 01248 362 516 neu ewch i **www.cronfagymunedolwatkinjones.com**